At: Swyddogion cyfrifol yr holl gyrff dyfarnu cydnabyddedig

18 Mawrth 2021

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Casglu data canlyniadau ar lefel dysgwr

Ym mis Mawrth 2020 cymeradwyodd Bwrdd Rheoleiddio Cymwysterau Cymru gasglu canlyniadau lefel dysgwyr ar gyfer TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrifau Her Sgiliau. Casglwyd y data ar gyfer haf 2020 drwy hysbysiad B4 ac mae'r casgliad data hwn bellach wedi'i ychwanegu at yr amserlen cofnodi ar gyfer 2020/21 (https://qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/ymchwil-ac-ystadegau/cymwysterau-cymru-cyflwyniadau-data/).

Ym mis Chwefror 2021, cymeradwyodd Bwrdd Rheoleiddio Cymwysterau Cymru y newidiadau canlynol i'r casgliad data hwn:

1. Casglu dynodwyr unigryw'r dysgwyr (UCI)
2. Newidyn sy'n nodi a yw'r dysgwr yn ymgeisydd preifat
3. Cynnwys canlyniadau Prosiect L3 yn y casgliad hwn

Mae tri opsiwn ar gyfer lliniaru'r risg o gasglu UCIs:

1. Cyrff dyfarnu yn amgryptio'r UCIs gan ddefnyddio dull cyson cyn darparu'r data i Cymwysterau Cymru
2. Cymwysterau Cymru'n darparu tabl chwilio UCI-ffugUCI i gyrff dyfarnu i'w ddefnyddio i amgryptio'r UCIs cyn darparu'r data i Cymwysterau Cymru
3. Cyrff dyfarnu yn darparu UCIs crai i Cymwysterau Cymru ac yna mae Cymwysterau Cymru yn amgryptio'r UCIs cyn dileu'r UCIs crai

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Byddem yn croesawu eich adborth ar yr uchod naill ai drwy e-bost, neu mewn trafodaeth yn Fforwm Data Ofqual, 30 Mawrth.

Cofion cynnes



Tom Anderson
Pennaeth Ymchwil ac Ystadegau